Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

National Assembly for Wales
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Julian Knight
Cadeirydd y Pwyllgor Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

24 Ebrill 2020

Annwyl Julian,

Gwybodaeth ffug a chamwybodaeth am COVID-19

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yr un mor bryderus â chwithau ynghylch camwybodaeth am COVID-19, ac rydym yn diolch i chi am godi'r mater hwn. Mae dealltwriaeth y cyhoedd o'r feirws, ac o'r ymdrechion i fynd i'r afael ag ef, yn hanfodol i leihau heintiau, i leihau'r straen ar ein Gwasanaeth Iechyd ac i achub bywydau.

Nid oes angen i'r Pwyllgor edrych ar y cyfryngau cymdeithasol i ddod o hyd i enghreifftiau o wybodaeth ffug niweidiol am y coronafeirws. Mae darparwyr newyddion prif ffrwd y DU wedi cyhoeddi gwybodaeth yn aml sy'n adrodd yn anghywir am faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae hyn yn sicr yn niweidiol i ddemocratiaeth yng Nghymru, ac yn ystod yr argyfwng presennol mae'n tanseilio ymdrechion i fynd i'r afael â'r afiechyd yng Nghymru.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- **ITV:** Volunteer target raised to 750,000 after more than half a million people sign up to help NHS (26 Mawrth 2020).

  Mae'r eitem newyddion hon yn adrodd am gynllun gwirfoddoli'r GIG yn Lloegr ac nid yw'n cynnwys dim cyfeiriad at fod iechyd wedi'i ddatganoli, ac mai cynllun yn Lloegr yn unig yw hwn. Nid ITV yn unig, o bell ffordd, a wnaeth gam-adrodd ar y fenter hon, ac ar ôl hynny llanwyd y cyfryngau cymdeithasol gyda negeseuon gan bobl yng Nghymru a oedd yn ansicr ynghylch sut y gallent wirfoddoli.

- **Independent:** Coronavirus: Emergency planning rules will allow restaurants and pubs to operate as takeaways in bid to survive lockdown. Nid yw'r erthygl hon yn cyfeirio o gwbl at y ffaith, gan fod cynllunio yn faes sydd wedi'i

ddatganoli, fod y newid hwn yn berthnasol i Loegr yn unig (roedd y newid rheol a amlinellwyd eisoes ar waith yng Nghymru).

- **Express:** UK school closures: Are schools closed till September? When will schools open again? Mae is-bennawd yr erthygl hon yn nodi bod "y Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd pob ysgol ledled Prydain yn cau o ddydd Gwener, 20 Mawrth oherwydd argyfwng y coronafeirws sy'n parhau". Nid yw hyn yn wir, gan fod addysg yn fater datganoledig, ac fel y dywed yr erthygl yn ddiweddarach, ar y pwynt hwn roedd y llywodraethau yng Nghymru a'r Alban eisoes wedi penderfynu cau ysgolion.

Mae'r enghreifftiau uchod yn rhai dangosol yn unig ac nid y rhain yw'r unig enghreifftiau o reidrwydd. Er y gall effaith erthyglau unigol fod yn ddibwys, mae effaith y camwybodaeth fesul diferyn fel hyn yn gyson i Gymru, yn niweidio dealltwriaeth y cyhoedd o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r feirws.

Nid yw'r cyhoeddiadau gan Lywodraeth y DU, sy'n anwybyddu datganoli yn aml er mwyn cyfleu negeseuon yn fwy syml, yn gwneud dim i gynorthwyo'r cyfryngau newyddion. Er enghraifft, pan oedd Matt Hancock AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lansio cynllun gwirfoddolwyr GIG Lloegr, ni soniodd o gwbl fod y cynllun yn gweithredu yn Lloegr yn unig.

Ar ryw adeg bydd llywodraethau ledled y DU yn penderfynu llacio rhai o'r cyfyngiadau sydd ar waith ar hyn o bryd. O ystyried bod newidiadau o ran y cyfyngiadau presennol yn fater datganoledig, bydd cyfathrebu clir yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl mewn gwahanol rannau o'r DU yn gwybod pa newidiadau sy'n berthnasol iddynt hwy. Oherwydd gallai cam-adrodd tebyg i'r hyn a amlinellir uchod arwain at ganlyniadau difrifol.

Mae mynd i'r afael â chamwybodaeth yn un ochr i'r geiniog o ran sicrhau bod ein dinasyddion yn hyddysg: y llall yw, sicrhau y caiff gwybodaeth ddibynadwy, sydd ag enw da, ei darparu. Yn 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor hwn adroddiad ar newyddiaduraeth newyddion, a ddaeth i'r casgliad bod dirywiad newyddiaduraeth newyddion masnachol "yn fater polisi cyhoeddus dwys, y mae angen i wneuthurwyr polisi ar bob lefel, yn enwedig Llywodraeth Cymru, fynd i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth".

Mae dirywiad papurau newydd lleol yn ffenomen ryngwladol, ond o ystyried absenoldeb sector cyfryngau cryf ac amrywiol yn hanesyddol yng Nghymru, fe'i teimlir yn fwy dwys yma. Mae darparwyr newyddion lleol wedi cysylltu â ni yn egluro sut mae eu model busnes bregus wedi cael ei ddifrodi ymhellach yn sgîl gostyngiadau mewn refeniw hysbysebu yn ystod yr argyfwng presennol.

Rydym yn gofyn i'r Pwyllgor godi'r materion a amlinellir uchod gyda darparwyr newyddion a Llywodraeth y DU. Hoffem weld y ddau grŵp yn gwella'r modd y maent yn cyfathrebu am faterion datganoledig, gyda'r nod yn y pen draw o leihau'r straen ar y GIG ac achub bywydau. Hoffem hefyd pe bai'r Pwyllgor yn trafod gyda Llywodraeth y DU pa gefnogaeth y gall ei darparu i'r sector cyfryngau lleol, yn ystod yr argyfwng hwn ac yn barhaus. Byddai cyfryngau newyddion lleol sydd ag adnoddau da yng Nghymru yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r feirws a'r camau a gymerir i fynd i'r afael ag ef.

Yn gywir,

Helen Mary Jones

Cadeirydd y Pwyllgor